Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi yma yn nhablau B-29 i B-32, grwpiau polisi 1 a 2.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi hwn.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad asesiad rheoliadau cynefinoedd, FfDC drafft:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf

## Polisi 5 – Cyflenwi Cartrefi Fforddiadwy

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Mae thema Actif a Chymdeithasol PCC yn ymdrin â thai, gan gynnwys tai fforddiadwy ac yn cydnabod bod tai fforddiadwy o ansawdd da yn sylfaenol i allu byw'n dda a daw ag amrywiaeth o fanteision o ran iechyd, dysgu a ffyniant.

Mae PCC yn fframwaith ar gyfer helpu i ddarparu tai. Mae'n gofyn i awdurdodau cynllunio, trwy'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS), sefydlu a monitro'r modd yr atebir y gofyn am dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, dros gyfnodau'r cynlluniau.

Mae Adran 4.2.24 PCC yn datgan fod angen y gymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth berthnasol y mae'n rhaid ei hystyried wrth ffurfio polisïau cynlluniau datblygu ac mae'n rhoi diffiniad clir hefyd o dai fforddiadwy ar gyfer y system gynllunio.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)**

TAN 2: Cynllunio a Thai fforddiadwy

Mae cynllunio defnydd tir yn un o'r mecanweithiau y gellir ei ddefnyddio i ddarparu tai fforddiadwy. Mae'r TAN yn ganllaw ymarferol ar rôl y system gynllunio yn hyn o beth. Mae'n diffinio tai fforddiadwy at bwrpas cynllunio ac yn rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ar sut i bennu beth sy'n fforddiadwy. Pwysleisir yr angen i gydweithio, gan gynnwys y gofyn i awdurdodau tai a chynllunio lleol asesu'r farchnad dai leol (LHMA) ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan2-cynllunio-tai-fforddiadwy.pdf

TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy

Mae'r TAN yn rhoi arweiniad ar sut y gall y system gynllunio gyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy a chynaliadwy yng nghefn gwlad (Adran 4.2).

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan6-cymunedau-gwledig-cynaliadwy.pdf

**Tystiolaeth Allweddol**

Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (2017)

Strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cymru sy'n codi'r ymrwymiadau allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen ac yn eu rhoi mewn cyd-destun tymor hir gan ddangos sut maen nhw'n ategu gwaith gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru i osod y sylfeini ar gyfer sicrhau ffyniant i bawb.

Mae'r strategaeth genedlaethol yn datgan fod tai yn un o'r pum maes blaenoriaeth all wneud y cyfraniad mwyaf o bosibl at ffyniant a lles tymor hir. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r nod y dylai pawb fyw mewn cartref sy'n diwallu ei anghenion ac sy'n cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a ffyniannus. Tai o ansawdd da yw conglfaen cymunedau da, sy'n rhoi'r sail i unigolion a theuluoedd ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau. Dywed y bydd Llywodraeth Cymru yn:

- cyrraedd y targed o ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd erbyn 2021, a sicrhau bod mwy o gartrefi ar gael i'w rhentu am brisiau fforddiadwy ledled Cymru
- gweithio gydag awdurdodau lleol i ddechrau adeiladu tai cyngor ar raddfa a chyflymder na welwyd mo'u tebyg ers degawdau
- cysylltu tai newydd â datblygiadau seilwaith mawr newydd.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol

### Amcangyfrif o'r angen am dai yng Nghymru ar lefel genedlaethol a rhanbarthol (ar sail 2018)

Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif yr angen am dai dros gyfnod o 20 mlynedd hyd at 2037/38 (canol blwyddyn i ganol blwyddyn). Mae'r ffigurau ar gael ar lefel genedlaethol a'r tri rhanbarth economaidd (Gogledd/Canolbarth a De-orllewin/De-ddwyrain).

Am y 5 mlynedd gyntaf, mae'r amcangyfrifon wedi'u rhannu hefyd yn Dai'r Farchnad (perchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat) a thai fforddiadwy (rhentu cymdeithasol a chanolradd).

Mae amcangyfrif yr angen am dai yn y dyfodol yn hanfodol wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o'r angen am dai yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth sy'n llywio'r broses o ddatblygu gofynion tai rhanbarthol a lleol a bydd angen iddynt ystyried polisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac ystyriaethau ymarferol er mwyn llunio barn ar lefel y tai sydd ei hangen a'r hyn y gellir ei ddarparu mewn ardal.

Ar gyfer y pum mlynedd gyntaf (2018/19 to 2022/23) mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi amcangyfrifon o'r angen am dai (ar lefel genedlaethol a rhanbarthol) a'u rhannu'n ddau fath o ddeiliadaeth:

- Tai'r farchnad (y sector perchen-feddianwyr a rhentu preifat).
- Tai fforddiadwy (rhentu cymdeithasol a chanolradd).

Mae'r amcangyfrifon o'r angen am dai wedi llywio penderfyniadau ynghylch polisi tai yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a'r ffocws ar wneud mwy i ymateb i'r angen a welir am dai fforddiadwy.

### Yr angen a'r galw am dai: ar sail 2018

llyw.cymru/angen-ar-galw-am-dai-sail-2018

### Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru yn ôl deiliadaeth (ar sail 2018)

llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/amcangyfrifon-or-angen-am-dai-yng-nghymru-fesul-deiliadaeth-sail-2018_0.pdf

### Adolygiad annibynnol o'r cyflenwad o dai fforddiadwy: adroddiad

Pwrpas yr adolygiad oedd edrych ar y trefniadau diweddaraf ar gyfer datblygu tai fforddiadwy a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau fydd yn arwain at gynyddu'r cyflenwad a gwella'r ddarpariaeth gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r adolygiad yn datgan fod polisi a phenderfyniadau da ynghylch cyflenwi tai fforddiadwy yn dibynnu ar y data gorau posibl am yr angen a'r galw am dai. Cafodd Llywodraeth Cymru ei chanmol am weld fwrw ati ac asesu'r angen cenedlaethol a rhanbarthol am dai.

llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-or-cyflenwad-o-dai-fforddiadwy-adroddiad

## Papur Esboniadol

### Angen o ran tai

Cafodd y papur esboniadol ei baratoi i gynorthwyo darllenwyr yr FfDC drafft i ddeall sut mae'r FfDC Drafft yn ceisio ymdrin â materion tai ar draws Cymru, a thynnir sylw at y dystiolaeth allweddol sydd wedi cyfarwyddo elfennau tai'r cynllun.

llyw.cymru/yr-angen-am-dai-papur-esboniadol

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi yma yn nhablau B-33 a B-34, grwp polisi 3.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi hwn yn nhabl 3.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf



## Polisi 6 – Cynllunio mewn Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Mae PCC o blaid datblygu seilwaith telathrebu modern a chyflym lle bo'i angen i ddiwallu anghenion economaidd a chymdeithasol, ond gan ddibynnu ar y dirwedd a'r amwynderau.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)**

TAN 19 Telathrebu (2002)

Mae'r cyngor hwn yn ystyried twf y diwydiant a thechnoleg telathrebu, y gofyn cymdeithasol ac economaidd newydd o ran cyfathrebu a pholisïau amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyngor yn diffinio terminoleg cyfathrebu, yn nodi'r hyn y dylai'r cynllun datblygu fynd i'r afael ag e ac yn disgrifio trefniadau rheoli

datblygiad ac ystyriaethau amgylcheddol wrth asesu ceisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw a chaniatâd cynllunio.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-19-telathrebu

**Tystiolaeth Allweddol**

Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Mawrth 2019)

Mae'n hyrwyddo twf economi gynhwysol sy'n lledaenu cyfle a lles tra'n cyfrannu at gynnal y Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb.

- Yn cefnogi gwella'r cysylltedd a'r cwmpas symudol (gan gynnwys 5G) er lles yr economi leol, ond gan gydnabod bod angen diogelu'n tirwedd.
- Yn cefnogi gweithio â chwmnïau symudol ac Ofcom i ddod ag atebion blaengar i ardaloedd gwledig, yn enwedig lle bo'r ddaearyddiaeth yn achosi problemau.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf

Cynllun gweithredu ffonau symudol (Hydref 2017)

Mae'r cynllun yn dangos sut y gweithiwn â'r diwydiant ffonau symudol ac Ofcom i wella'r cysylltiadau telathrebu i ddiwallu anghenion pobl a busnesau yng Nghymru.

- Yn cynnwys camau allweddol i weld faint o ymyrraeth gyhoeddus sydd ei hangen i lenwi'r bwlch mewn ardaloedd lle ceir cysylltiad telathrebu gwael os o gwbl.
- Wedi arwain at ymchwil i nodi lle gellid sefydlu Ardaloedd Gweithredu Symudol ledled Cymru.

llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ffonau-symudol

Digwyddiadau Ymgysylltu'r FfDC – (Ionawr/Chwefror 2017)

Cafodd y digwyddiadau eu trefnu i godi ymwybyddiaeth am yr FfDC, i gasglu barn am y pynciau dan sylw, tynnu sylw at y Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau, a rhoi cyfle i bobl holi cwestiynau.

Dylai'r FfDC gydnabod:

- rhaid mynd i'r afael â chysylltiadau symudol a band eang gwael mewn ardaloedd gwledig
- a hwyluso seilwaith digidol cyflym a dibynadwy i gefnogi economi ddeinamig
- gall band eang leihau'r angen i deithio (gan gael effeithiau da o ran tagfeydd a llygredd); cynyddu cynhyrchiant; cefnogi trefniadau gweithio hyblyg; lleihau'r ymdeimlad o fod yn ynysig
- gall band eang wella mynediad at wasanaethau, diwylliant ac adloniant. Mae cymunedau heb gysylltiadau da yn llai deniadol i bobl fyw ynddyn nhw
- mae twristiaid yn disgwyl cysylltiadau symudol a band eang
- rhaid i'r system gynllunio ymateb i dechnoleg gyfathrebu newydd a'i manteision i Gymru gyfan.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-digwyddiadau-ymgysylltu-ionawr-chwefror-2017-cofnod-o-ddigwyddiadau.pdf

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig acAsesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi hwn yn nhablau B-35 a B-36, grŵp polisi 4.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi hwn yn nhabl 3. Mae canlyniadau'r asesiad priodol i'r polisi yn nhabl 4.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf



## Polisi 7 – Cerbydau Allyriadau Isel Iawn

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Bydd yr FfDC yn bwrw ymlaen â'r gwaith adeiladol rydym wedi'i wneud o ran gwefru ceir trydan ym Mholisi Cynllunio Cymru, sy'n gofyn am seilwaith gwefru mewn datblygiadau annomestig (Adran 4.1).

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Tystiolaeth Allweddol**

Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel (2019)

Yn disgrifio camau Llywodraeth Cymru i hybu datgarboneiddio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio â Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, y sector ynni a busnesau i gynllunio a darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan. Mae'r FfDC yn cefnogi'r ymrwymiadau hyn i weld mwy o bobl yn gyrru cerbydau trydan ac isel eu hallyriadau.

llyw.cymru/cynllun-cyflawni-carbon-isel

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi hwn yn nhablau B-36 a B-37, grŵp polisi 5.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi hwn yn nhabl 3.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf

## Polisi 8 – Fframwaith Strategol ar gyfer Gwella Bioamrywiaeth a Chryfhau Ecosystemau

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw…

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd I'r arfael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun I dwf cynaliadwy
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Mae gan PCC bolisi cynhwysfawr o ran bioamrywiaeth, tirwedd, seilwaith gwyrdd a chreu lleoedd:

Asesu manteision cynaliadwy datblygu (2.21-2.23); Dylunio (3.7-3.10. 3.14) Lleoedd Iachach (3.19-3.24); Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (3.30-3.33); Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig (3.34-3.35); Y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (3.54-3.55); Rheoli Ffurf Aneddiadau (3.60-3.74); Cyfleusterau Cymunedol (4.4); Mannau Hamddena (4.5) Twristiaeth (5.5); Economi Wledig (5.6); Diogelu Nodweddion a Phriodoleddau Arbennig Lleoedd (5.14.35-5.14.41); Adfer ac ôlofal (5.14.50-5.14-55); Seilwaith Gwyrdd (6.6); Tirwedd (6.3), Bioamrywiaeth a Rhwydweithiau Ecolegol (6.4); Ardaloedd Arfordirol (6.5.3-8, 6.5.12-13, 6.5.17-20); Dŵr (6.6.5-6, 6.6.14-19); Ansawdd Aer a Seinwedd (6.7.8, 6.7.10, 6.7.12, 6.7.16-18, 6.7.25); Dadrisgio (6.9.3, 6.9.8-9).

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)**

TAN 5 cynllunio a chadwraeth natur
llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur

TAN 16: chwaraeon hamdden mannau agored
llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-16-chwaraeon-hamdden-mannau-agored

TAN 15: datblygu a pherygl llifogydd
llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-15-datblygu-pherygl-llifogydd

TAN 14: cynllunio'r arfordir
llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-14-cynllunior-arfordir

**Tystiolaeth Allweddol**

Polisi Adnoddau Naturiol 2017



Yn ôl Deddf Amgylchedd (Cymru), rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) a chymryd pob cam rhesymol i roi'r NRP ar waith ac annog eraill i gymryd camau tebyg.

Y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn ôl y Polisi Adnoddau Naturiol yw:

- Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur.
- Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.
- Rheoli ar sail lle.

Amcan y polisïau a'r camau yw cryfhau'n hecosystemau trwy reoli ar sail lle a natur.

Mae hynny'n golygu diogelu bioamrywiaeth a manteisio ar gyfleoedd i greu ac adfer cynefinoedd i liniaru effeithiau hinsawdd sy'n newid ac addasu iddynt, rheoli tir a dŵr yn well a darparu mwy o seilwaith gwyrdd ym mhob math o leoedd yng Nghymru.

Ar y cyd â'r polisi presennol yn PCC, gall yr FfDC gyfrannu at wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chryfhau rhwydweithiau ecolegol trwy:

- Ddiogelu safleoedd dynodedig ac asedau bioamrywiaeth rhag effeithiau sy'n gwanhau cydnerthedd rhwydweithiau ecolegol – gan gynnwys yr elfennau sy'n sail iddynt a dylid ceisio eu cryfhau ymhellach (eu nodweddion e.e. gwella amrywiaeth a chysylltedd trwy ddylunio).
- Cysylltu cynefinoedd (pob math), un wrth y llall, ac annog creu ac adfer cynefinoedd trwy fecanweithiau fel lleiniau clustogi, coridorau a cherrig llamu.
- Diogelu safleoedd dynodedig ac asedau bioamrywiaeth trwy leihau effeithiau datblygu o safbwynt cymdeithasol, economaidd, diwylliannnol ac ecolegol ehangach. Mae hyn yn golygu rheoli datblygiadau mewn ffordd integredig er mwyn esgor ar fanteision niferus, gan gynnwys y rheini a ddaw trwy reoli ar sail natur fel seilwaith gwyrdd ond gan gynnwys hefyd hybu dewisiadau ynghylch defnyddio adnoddau'n effeithiol ac iechyd a lles unigolion a chymunedau.

Mae ein tiweddau naturiol (Parciau Cenedlaethol, AHNE, Llwybr Arfordir Cymru) yn atyniadau ac asedau pwysig i ymwelwyr hefyd, ac yn rhan bwysig o economi Cymru. Mae tirweddau'n rhan hanfodol o atebion sy'n seiliedig ar le ac ar natur. Mae gan bob lle ei rinweddau, cyfleoedd a swyddogaethau unigryw y mae PCC yn eu cydnabod ac y bydd CNC yn eu hystyried wrth ddatblygu datganiadau ardal.

Mae sawl pwrpas i seilwaith gwyrdd. Ar raddfa ofodol genedlaethol, gellir ei ddefnyddio i:

- ddiogelu bioamrywiaeth, creu/adfer cynefinoedd a gwella cysylltedd rhwng cynefinoedd a thrwy hynny, cryfhau rhwydweithiau ecolegol
- datrys problemau cywasgu a selio pridd, cyfrannu at atal llifogydd a rheoli dŵr a lleihau llygredd aer
- dod â manteision i les ac iechyd pobl trwy ddod â seilwaith gwyrdd i galon ein cymunedau gan ddarparu lle i hamddena, coridorau teithio i feiciau a cherddwyr, cydnerthedd rhag llifogydd a gwres, gwella ansawdd aer a darparu lleoedd pwysig i natur.

Gallai camau yn yr FfDC i ddarparu cydnerthedd, cymeriad y dirwedd a seilwaith gwyrdd olygu:

- Cymryd camau proactif ac ataliol er lles cynefinoedd sy'n arbennig o agored i niwed gan newid a ddaw trwy ddatblygu. Cynefinoedd fel gorlifdiroedd ac ardaloedd trefol, gan gynnwys coetir, ac annog atebion penodol mewn lleoedd penodol, er enghraifft diogelu ac annog gorchudd coed mewn trefi, diogelu'r gorlifdir ac osgoi ei ddarnio trwy ddatblygiad, sicrhau bod draenio cynaliadwy yn rhan o bob datblygiad trefol.
- Osgoi gwanhau cydnerthedd. Ceir cyfleoedd i ddatrys llygredd gwasgaredig, pridd wedi'i gywasgu a'i selio mewn ardaloedd trefol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol mewn trefi ac ymylon arfordirol.
- Diogelu tirweddau statudol ac anstatudol a dynodiadau diwylliannol.
- I wneud y gorau o fanteision ecosystemau, ceir cyfleoedd i ddarparu systemau draenio cynaliadwy, dylunio mewn ffordd sy'n sensitif i ddŵr, rheoli dŵr a lefelau carbon yn y pridd ac ystyried sut i addasu i'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, perygl llifogydd, ansawdd aer a thymheredd uwch, y cyfan mewn ardaloedd trefol.

llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol

### Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2016

Mae dyletswydd ar CNC i gyhoeddi adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer darparu tystiolaeth i'w defnyddio ledled Cymru i lywio penderfyniadau, pennu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac i nodi cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd a gwneud cymunedau'n fwy cydnerth. Cyhoeddwyd y SoNaRR cyntaf ym mis Medi 2016.

Mae *SoNaRR* yn nodi'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd wedi'u colli dros y ganrif ddiwethaf gan awgrymu ei fod yn ddirywiad cronig ac y bydd yn parhau yn sgil digwyddiadau sydd wedi ac a fydd yn digwydd oherwydd y newid yn yr hinsawdd a darnio cynefinoedd. Yn fras, nid yw ecosystemau Cymru'n ddigon cydnerth. Profir hynny gan anallu rhywogaethau i ymadfer. Dim ond chwyldro wnaiff wyrdroi hyn.

Dyma brif ystyriaethau ar gyfer yr FfDC yn sgil SoNaRR:

- Bydd gwrthdaro'n tueddu i ddigwydd ar yr iseldir a'r gorlifdir, sef lle ceir y bygythiadau mwyaf i gydnerthedd. Ond ceir cyfleoedd yno hefyd, i ddatrys problem adeiladu ar orlifdir, llygredd gwasgaredig, cywasgu a selio pridd mewn ardaloedd trefol ac amddiffyn rhag llifogydd mewn trefi ac ymylon arfordirol.
- Mae cydnerthedd coridorau afonydd yn arbennig o agored i niwed.
- Gallai fod yna gyfleoedd i greu neu adfer cynefinoedd ar hyd coridorau cludiant o bob maint.
- Dylid ystyried cyfleoedd i roi tir naill ochr i adfer cynefinoedd neu i greu rhai newyddm er enghraifft safleoedd clustogi o gwmpas safleoedd dynodedig a cherrig llamu.

- Sicrhau seilwaith gwyrdd i wyrdroi'r colledion mewn rhywogaethau ac i gynnal cydnerthedd, a hefyd i sicrhau manteision rheoli dŵr yn well a gwella ansawdd dŵr (a sicrhau systemau draenio cynaliadwy), dylunio sy'n sensitif i ddŵr, rheoli carbon mewn pridd a lliniaru bygythiadau eraill, fel sŵn, tymheredd uwch a diffyg mynediad at fannau gwyrdd, i iechyd a lles.
- Er mwyn i rywogaethau (amrywiaeth) a phobl (lles ac iechyd) allu addasu i newid – ar ffurf hinsawdd sy'n newid gan fwyaf – rhaid wrth weithredu i ddiogelu maint, cyflwr a chysylltedd rhwydweithiau ecolegol.
- Rhaid ymateb i'r newid yn yr hinsawdd er mwyn cryfhau rhwydweithiau ecolegol iddynt allu ei wrthsefyll a sicrhau'r manteision cysylltiol a ddaw o wneud. Mae cynefinoedd yn gweithio fel storfeydd carbon ac yn helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd. Rhaid cysylltu cynefinoedd er mwyn i rywogaethau allu addasu a thrwy hynny, cryfhau nagtur i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Mae rhwydweithiau ecolegol cryf yn diogelu pobl rhag effeithiau newid hinsawdd hefyd e.e. addasu i lifogydd.

*Datganiadau ardal*

Bydd CNC yn paratoi datganiadau ardal i roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith yn lleol. Nid ydynt ar gael eto. Mae'n sylfaenol bwysig ein bod yn cydweithredu ar y raddfa iawn ac yn y lleoedd iawn i daclo'r problemau ac i gael y gorau o'r manteision y mae adnoddau naturiol Cymru'n eu darparu.

Bydd Datganiadau Ardal yn chwarae rhan allweddol o ran adnabod y cyfleoedd a'r cyfyngiadau lleol, a'u cysylltiad â'r blaenoriaethau cenedlaethol. Trwy wneud, byddant yn rhoi sylfaen o dystiolaeth ar gyfer cydweithio ac yn gyswllt ar gyfer datblygu a darparu'r fframwaith ehangach a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus.

naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy

Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017

Yn trafod tueddiadau heddiw ac yfory sy'n effeithio ar Gymru. Yn ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd, defnydd tir ac adnoddau naturiol.

Oherwydd y twymo sydd wedi digwydd a'r twymo sydd i ddod (fel ag a ragwelir gan y dystiolaeth ddiweddaraf), bydd angen rhagor o addasu eto i'r hinsawdd.

Bydd bioamrywiaeth a chynefinoedd Cymru o dan hyd yn oed mwy o bwysau, gan adlewyrchu'r sefyllfa ledled y byd. Er y gwelwyd gwelliant yn y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig yn ansawdd y dŵr a rhai agweddau ar ansawdd aer, mae llawer o'n hadnoddau naturiol a chydnerthedd ein hecosystemau'n dal i ddirywio (gweler SoNaRR 2016).

Yn fras, dylai'r FfDC ystyried effeithiau'r canlynol ar fioamrywiaeth a chynefinoedd:

- Bydd angen addasu i'r newid yn yr hinsawdd oherwydd y perygl cynyddol o dywydd mawr a thanau gwyllt.
- Bydd llawer o'n hadnoddau naturiol a chydnerthedd ein hecosystemau'n debygol o ddirywio. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn dylanwadu ar wasgariad a phoblogaeth rhai rhywogaethau.
- Bydd yr 20 mlynedd nesaf yn dyngedfennol o ran penderfynu pa rai o'r senarios twymo tymor hir fydd yn digwydd a'r camau addasu fydd eu hangen.

llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2017

### Cynllun Adfer Natur (NRAP) Cymru (2015)

Y Cynllun Adfer Natur yw'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Bioamrywiaeth Cymru. Mae'n esbonio sut y byddwn yn gwireddu ymrwymiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth a Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE a hefyd nodau 'Cymru gydnerth' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er mwyn gwireddu'r ymrwymiadau hyn, mae'r Cynllun Adfer yn disgrifio'r amcan tymor hir o wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, oherwydd ei werth cynhenid, a sicrhau manteision sy'n para i gymdeithas.

Mae pob un o'r chwe nod i helpu bioamrywiaeth i ymadfer yn berthnasol i'r FfDC. Yn arbennig:

- rhaid i fioamrywiaeth fod yn ystyriaeth sylfaenol ym mhob penderfyniad ar bob lefel
- rhaid i'r hyn a wneir ddiogelu safleoedd dynodedig a gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd a dylent fod yn graidd i rwydweithiau mawr yn hytrach nag yn ynysoedd yn y dirwedd; a
- dylai hyn gynnwys cyfleoedd i adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio ac i greu cynefinoedd, eu diogelu rhag eu darnio ac integreiddio seilwaith gwyrdd.

llyw.cymru/cynllun-gweithredu-adfer-natur-2015

### Tirweddau Cenedlaethol: Gwireddu eu Potensial – Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru – Adroddiad Terfynol (Gorffennaf 2015)

Edrychodd yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru ar swyddogaethau a threfniadau llywodraethu tirweddau dynodedig Cymru a'u gweledigaeth fel rhan o'r ystyriaeth o rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel awdurdodau cynllunio yn y dyfodol yng nghyd-destun Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Ystyriwyd y tri Pharc Cenedlaethol a'r pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Mae'r Adolygiad yn cynnig nifer o argymhellion sy'n ymwneud â pholisi, prosesau a threfniadau llywodraethu'r dynodiadau hyn. Mae'n cynnig gweledigaeth newydd hefyd ar gyfer 'Tirweddau Cenedlaethol Cymru' sef:

- eu bod yn dod yn "ffatrïoedd llesiant pwysig" sy'n ysgogi mwy o bartneriaethau menter lleol, tai fforddiadwy cynaliadwy, twristiaeth, ynni gwyrdd a mentrau adwerthu
- eu bod yn gwella bywydau cenedlaethau heddiw ac yfory trwy eu tri phwrpas
- bod eu priodoleddau arbennig yn cael eu cynnal, eu gwella a'u gwerthfawrogi'n eang
- eu bod yn cael eu cydnabod fel rhan bwysig o seilwaith gwyrdd Cymru
- eu bod yn ardaloedd ar gyfer cydweithio arloesol sy'n seiliedig ar le ac sy'n wynebu heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, a
- eu bod yn cael eu gweld trwy'r byd fel arweinwyr ym maes datblygu cynaliadwy.

Dylai'r FfDC gydnabod y bydd tirweddau gwarchodedig yn rhan o unrhyw gynllun ar gyfer diogelu cydnerthedd ecosystemau. Maent yn rhannau allweddol o'r seilwaith gwyrdd cenedlaethol a gwelir eisoes eu bod yn ceisio darparu manteision niferus.

llyw.cymru/adolygiad-o-ardaloedd-o-harddwch-naturiol-eithriadol-pharciau-cenedlaethol-2015

### Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru – Adolygiad o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol Cymru (Mai 2017)

Cyhoeddwyd yr Adroddiad hwn yn sgil yr Adroddiad ar yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru ac mae'n disgrifio sut y dylai tirweddau dynodedig ysgogi rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn eu hardal.

Partneriaeth Tirweddau'r Dyfodol a'i gynhyrchodd a chafodd ei gyhoeddi gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet ar ran y bartneriaeth. Yr adroddiad hwn yw barn ystyriol y bartneriaeth am rôl tirweddau dynodedig heddiw ac yfory o fewn cyd-destun deddfwriaethol a pholisi Cymru.

Trwy ysgogi rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn eu hardal, mae'r Adroddiad yn esbonio y dylai'r cyrff sy'n rheoli tirweddau dynodedig:

- ddatblygu cyfleoedd ar gyfer eu hardal gan gynnwys ar gyfer 'twf gwyrdd'; ac
- ysbrydoli, grymuso a chefnogi cymunedau lleol i weithredu trwy gynllunio ar sail lle, sy'n cynnwys eu dylanwad ar safleoedd datblygu, yr hyn sy'n gwneud yr ardal yn unigryw, syniadau newydd ar gyfer yr economi werdd, seilwaith cymunedol a thwristiaeth werdd a threftadaeth.



Mae'r pynciau hyn yn hanfodol bwysig ond gellid dadlau mai mater i awdurdodau'r parciau cenedlaethol a'r awdurdodau lleol priodol yw mynd i'r afael yn fanwl â'r pynciau hyn. Mae seilwaith gwyrdd yn ffordd gydnabyddedig sydd wedi ennill ei phlwyf o wireddu a darparu manteision niferus trwy'r system gynllunio. Mae PCC eisoes yn darparu fframwaith yn hyn o beth. Byddent fodd bynnag yn cael eu hystyried yn rhan o unrhyw ymdriniaeth genedlaethol o seilwaith gwyrdd a chydnerthedd ecosystemau y gallai'r FfDC ei datblygu.

llyw.cymru/ardaloedd-o-harddwch-naturiol-eithriadol-pharciau-cenedlaethol-2017

### Y Confensiwn ar Fioamrywiaeth

Sail cyd-destun y polisi byd-eang yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth Fiolegol 1992. Mae'r Confensiwn yn ymrwymo ei aelodau i ddatblygu strategaethau, cynlluniau neu raglenni cenedlaethol ar gyfer gwarchod a defnyddio'n gynaliadwy eu hamrywiaeth fiolegol a'u hymgorffori o fewn cynlluniau, rhaglenni a pholisïau sectorol a thraws-sectorol, i'r graddau y gellid gwneud hynny ac fel sy'n briodol.

Mae'r Confensiwn yn nodi 12 **egwyddor** weithredol sy'n canolbwyntio ar reoli bioamrywiaeth ar sail ecosystem. *(Mae'r Cynllun Adfer Natur yn crynhoi hyn yn Atodiad 2)*.

Targedau Aichi: cawsant eu creu i wireddu nodau'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol. Mae Targed 2 yn cyfeirio'n benodol at integreiddio gwerthoedd bioamrywiaeth mewn prosesau datblygu a chynllunio cenedlaethol a lleol ac ymgorffori'r gwerthoedd hyn o fewn systemau adrodd ac fel y gwelir yn dda, cyfrif cenedlaethol erbyn 2020.

Dylai'r FfDC gymryd camau i atal colli bioamrywiaeth a dirywiad gwasanaethau ecosystem, a'u hadfer i'r graddau y mae hynny'n bosibl, a chryfhau cyfraniad yr UE at atal rhagor o golledion ym mioamrywiaeth y byd.

www.cbd.int/ (Saesneg yn unig)
www.cbd.int/sp/targets/ (Saesneg yn unig)

### Mapiau presennol o safleoedd dynodedig

Cynhwysir mapiau o safleoedd dynodedig yn Ffigur 1 adroddiad cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI): gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/figure-1-designated-nature-conservation-sites.pdf (Saesneg yn unig)

Maent yn cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Natura 2000, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Morol.

Ystyrir tirweddau gwarchodedig cenedlaethol hefyd, gan gynnwys parciau cenedlaethol ac AHNE.

Mae fframwaith ACI ar gyfer asesu yn delio â safleoedd dynodedig yn amcan 16 ACI – Creu cyfleoedd i warchod a chyfoethogi bioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Y cwestiwn mwyaf perthnasol i helpu penderfyniad mewn cysylltiad â safle dynodedig yw – A wnaiff yr FfDC greu

cyfleoedd ar gyfer gwarchod a chyfoethogi safleoedd cadwraeth natur, cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig a heb eu dynodi?

Mae PCC a TAN 5 Cadwraeth Natur yn cynnwys polisïau cynhwysfawr ynghylch safleoedd dynodedig. Mae lleoliadau safleoedd yn hysbys ac yn gyfarwydd. Mae angen penderfynu felly a ddylai safleoedd dynodedig (o bwys cenedlaethol neu fwy) gael eu mapio fel rhan o'r FfDC a bod drwy hynny yn destun polisi penodol ac a oes blaenoriaethau polisi clir o blaid gwneud hynny. Dylai'r rhesymau hyn gynrychioli mwy na'r hyn sydd eisoes mewn PPC a TAN perthnasol ac ymhelaethu arno.

Bydd Datganiadau Ardal yn ffynhonnell data, gwybodaeth a mapiau newydd ar lefel rhanbarth ac isranbarth ond nid yw'r wybodaeth hon ar gael eto.

Mae SoNaRR yn pennu cynefinoedd/mathau o ddefnydd tir a gallai fod ffordd o ddefnyddio'r mapiau i ddatblygu dull mwy gofodol o'u pennu. Dechreuwyd ar ddeialog â CNC i weld a oes rhagor o dystiolaeth ar gael.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/figure-1-designated-nature-conservation-sites.pdf (Saesneg yn unig)

### Cydweithio â CNC – Datblygu ffordd o ddarparu mapiau ymlaen llaw i gefnogi Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) a Datganiadau Ardal

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) baratoi mapiau i ddangos ardaloedd bras lle gallai fod rhwydweithiau ecolegol/seilwaith gwyrdd o bwys cenedlaethol, hynny fel sail ar gyfer hybu camau i warchod a chyfoethogi bioamrywiaeth a chryfhau ecosystemau a chydnabod pwysigrwydd seilwaith gwyrdd strategol.

Darparwyd mapiau ac fe'u cynhwysir yn Atodiad 1. Sylweddolwyd y byddai modd deall ecosystemau yn fanylach ar raddfa ranbarthol a lleol ac y byddai gofyn i gynlluniau datblygu strategol a lleol o'r herwydd ddatblygu ymdriniaeth ar raddfa fanylach. Cyhoeddir rhagor o wybodaeth fel rhan o'r Datganiadau Ardal.

Mae'r mapiau gyda'i gilydd yn rhoi trosolwg cenedlaethol gwerthfawr o rwydweithiau cydnerth a seilwaith gwyrdd strategol. Yn eu hanfod, maent yn Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd ar raddfa genedlaethol, lefel uchel. Ond byddai'n well mynd â'r gwaith hwn yn ei flaen ar lefel ranbarthol a mwy lleol. Y prif gasgliadau ar gyfer yr FfDC yw:

- Mae safleoedd gwarchodedig yn ganolog i rwydweithiau cydnerth, ond nid dyna'r stori gyfan.
- Mae'r wybodaeth hon yn datgelu patrwm bras cydnerthedd ond dim ond mewn ffordd amcanol y mae modd defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei mapio ar raddfa genedlaethol.
- Er nad oes modd eu gweld ar raddfa genedlaethol, mae rhwydweithiau a mannau ecolegol-gyfoethog lleol yn dal yn bwysig iawn.
- Mae angen ystyriaeth fanylach o'r gweithredu sydd ei angen i gefnogi'r ardaloedd mwyaf cydnerth a beth i'w wneud â'r ardaloedd hynny nad ydynt yn dangos arwyddion cryf o gydnerthedd.
- Bydd Datganiadau Ardal yn esgor ar fapiau manylach lleol ac mae'n bosibl y bydd modd eu defnyddio law yn llaw â'r mapiau cenedlaethol hyn i wneud penderfyniadau ar lawr gwlad.

### Yr Adroddiad Ymgynghori ar Faterion ac Opsiynau

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-06/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-crynodeb-o-ymatebion.pdf

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi yma yn nhablau B-38 a B-39, grŵp polisi 6.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi yma yn nhabl 3.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynwys Atodad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf



## Polisi 9 – Y Goedwig Genedlaethol

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Mae PCC yn disgrifio fframwaith cryf ar gyfer diogelu coed, coetir a pherthi. Dylai coetir hynafol, coetir lled-naturiol a choed hen, coed hynod a choed treftadaeth unigol gael eu diogelu hefyd:

Asesu manteision cynaliadwy datblygiad (2.21-2.23); Dylunio (3.7-3.10. 3.14) Lleoedd Iachach (3.19-3.24); Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (3.30-3.33); Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig (3.34-3.35); Y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (3.54-3.55); Rheoli Ffurf Aneddiadau (3.60-3.74); Cyfleusterau Cymunedol (4.4); Mannau Hamddena (4.5) Twristiaeth (5.5); Economi Wledig (5.6); Diogelu Nodweddion a Phriodoleddau Arbennig Lleoedd (5.14.35-5.14.41); Adfer ac ôlofal (5.14.50-5.14-55); Seilwaith Gwyrdd (6.6); Tirwedd (6.3), Bioamrywiaeth a Rhwydweithiau Ecolegol (6.4); Ardaloedd Arfordirol (6.5.3-8, 6.5.12-13, 6.5.17-20); Dŵr (6.6.5-6, 6.6.14-19); Ansawdd Aer a Seinwedd (6.7.8, 6.7.10, 6.7.12, 6.7.16-18, 6.7.25); Dadrisgio (6.9.3, 6.9.8-9).

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf

**Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)**

TAN 5 cynllunio a chadwraeth natur
llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur

TAN 6: cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy
llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-6-cynllunio-ar-gyfer-cymunedau-gwledig-cynaliadwy

TAN 13: twristiaeth
llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-13-twristiaeth

TAN 15: datblygu a pherygl llifogydd
llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-15-datblygu-perygl-llifogydd

TAN 16: chwaraeon hamdden mannau agored
llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-16-chwaraeon-hamdden-mannau-agored

**Tystiolaeth Allweddol**

### Y Polisi Adnoddau Naturiol 2017

Yn ôl Deddf Amgylchedd (Cymru), rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) a chymryd pob cam rhesymol i roi'r NRP ar waith ac annog eraill i gymryd camau tebyg.

Y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn ôl y Polisi Adnoddau Naturiol yw:

- cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur
- cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon; a
- rheoli ar sail lle.

O safbwynt coed a choetiroedd, y pwyntiau mwyaf perthnasol ar gyfer y system gynllunio yw ei hamcanion i:

- Annog cynlluniau coedwig da a rheolaeth gynaliadwy sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad ac ansawdd y dirwedd, gwella gwerth bioamrywiaethol coedwigoedd, a sicrhau manteision ehangach megis rheoli perygl llifogydd.
- Cynyddu a gwella'r cysylltedd rhwng ein perthi. Mae perthi'n bwysig o ran cysylltedd yn y dirwedd a gallant chwarae eu rhan i reoli dŵr.
- Rheoli coed a choetir sydd o werth amgylcheddol mawr, gan gynnwys safleoedd coetir hynafol a threftadaeth – adnodd na all ddim gymryd ei le sy'n darparu amrediad eang o wasanaethau ecosystem.

llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol

### Coetiroedd i Gymru: cynllun gweithredu

*"Coetiroedd i Gymru"* yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru ar gyfer y 50 mlynedd nesaf. Cafodd ei chyhoeddi'n wreiddiol yn 2001 a'i hadolygu ym mis Mawrth 2009. Mae'n disgrifio amcanion a nodau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer holl goetiroedd a choed Cymru, yn eiddo preifat a chyhoeddus, ac mewn ardaloedd gwledig, lled-drefol a threfol.

Mae'r strategaeth yn cydnabod mai gweithgaredd tymor hir yw gofalu am goetir a choed a'i fod yn gallu dod ag amrywiaeth o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru, gan gynnwys cyfrannu'n sylweddol at leihau effeithiau hinsawdd sy'n newid.

Bydd creu a rheoli coetiroedd yn bwysig er mwyn cwrdd â chyllidebau carbon, y targedau allyriadau interim a tharged allyriadau 2050.

Penderfynodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol ddiwygio'r targed tymor hir er mwyn cynnwys cynyddu'r gorchudd coed ynghyd â mabwysiadu targed tymor byr, interim ar gyfer creu 10,000 o hectarau o goetir erbyn 2020.

Bydd hynny'n gofyn am blannu ar gyfartaledd 2,000 ha o goed y flwyddyn.

Mae'r strategaeth yn cydnabod gallu a chapasiti coetir a choed:

- i gynnal cydnerthedd ecosystemau Cymru a'u cryfhau
- i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt; ac
- i ddod â manteision i bobl, amgylchedd ac economi Cymru, heddiw ac yn y dyfodol.

Gallai'r FfDC ymdrin â'r materion hyn. Yn arbennig, gall yr FfDC wneud cyfraniad effeithiol at:

- ddiogelu coetiroedd a chynyddu'r gorchudd o goed/creu coetiroedd newydd
- cyfrannu at gynyddu a diogelu'r gorchudd coed mewn trefi a dinasoedd a chefnogi rheolaeth gynaliadwy ar goed trefol
- gwella'r modd y caiff pren o Gymru ei reoli a'i gynhyrchu a chynyddu ei fanteision economaidd trwy annog pobl i ddefnyddio pren o Gymru, er enghraifft fel deunydd ar gyfer gwaith adeiladu cynaliadwy sy'n ganolog i ddarparu tai newydd; a
- cyfrannu at werth 'di-bren' coedwigaeth, coetiroedd a choed er lles pobl, cymunedau ac amgylchedd naturiol Cymru.

llyw.cymru/coetiroedd-i-gymru-cynllun-gweithredu

### Mapio cyfleoedd ar gyfer plannu coetir

Darparwyd y mapiau gan CNC i nodi cyfleoedd i greu coetir ledled Cymru.

Roedd y syniad o greu coedwig genedlaethol yn rhan o faniffesto Mark Drakeford ar gyfer yr arweinyddiaeth. Byddai'n golygu creu rhwydwaith o goedwigoedd ledled y wlad fyddai'n gwneud yn fawr o gyfleoedd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a chyrraedd y targed o sicrhau cynnydd o o leiaf 2,000 o hectarau'r flwyddyn o orchudd coed o 2020.

Byddai gofyn i'r rhwydwaith sicrhau buddiannau er lles:

- Coed
- Hamdden
- Twristiaeth
- Masnach
- Addysg
- Cysylltedd er lles teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, cerbydau trydan a seilwaith gwyrdd
- Bioamrywiaeth a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
- Ynni adnewyddadwy a charbon isel
- Adfywio

Gellid gwneud hyn trwy frandio coetiroedd presennol, plannu mwy, datblygu seilwaith fel canolfannau ymwelwyr/hybiau canolog gyda chyfleusterau, mannau gwefru ceir trydan, llwybrau teithio llesol, cyfleusterau hamddena – canolfannau ymwelwyr, caffis ac ati.

Dyma agweddau sy’n berthnasol i’r FfDC a’r syniad o greu Coedwig Genedlaethol:

- Mae angen coetiroedd amrywiol, mawr a bach ar Gymru sy’n cynnwys conwydd a rhywogaethau llydanddail.
- Mae angen integreiddio coetiroedd a defnyddiau tir eraill yn well.
- Mae angen cydnabod pwysigrwydd sylfaenol cynyddu nifer y coed mewn ardaloedd trefol.
- Mae angen gwella cysylltedd ecolegol a thirweddol coetir a pherthi.
- Mae coetiroedd a choed iach a chydnerth yn darparu amrywiaeth eang o fuddiannau i gymunedau, er enghraifft, galluogi pobl i ddefnyddio a mwynhau coetiroedd, byw bywydau iachach a chynnal gweithgarwch economaidd sy’n gysylltiedig â choetiroedd.
- Bydd coetiroedd yn cyfrannu fwyfwy at gefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella cyfleoedd pobl a chymunedau i fwynhau’r awyr agored at ddibenion hamddena.

Ystyriwyd bod mapiau CNC yn cefnogi’r polisi yn yr FfDC ar y Goedwig Genedlaethol (gweler y dystiolaeth ar gyfer polisi 8). Yn arbennig, Map C (cyfleoedd i sicrhau manteision niferus trwy greu coetiroedd), Map A (rhwydweithiau ecolegol cydnerth a’r mannau gorau am fioamrywiaeth) a Map B (y mannau gorau am wasanaethau ecosystem) ochr yn ochr â’r mapiau canlynol:

- Twristiaeth – ffyrdd Cymru
- Llwybr beicio cenedlaethol
- Ardaloedd ynni adnewyddadwy
- Mynegai amddifadedd lluosog
- Cysylltiadau rheilffyrdd
- Mannau Hamddena Coedwigoedd CNC
- Llwybrau Hamddena Coedwigoedd CNC

Yr adroddiad ymgynghori ar Faterion ac Opsiynau

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-06/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-crynodeb-o-ymatebion.pdf

Digwyddiadau Ymgysylltu

Roedd y rhanddeiliaid yn credu bod twristiaeth yn thema allweddol yn yr FfDC ac y dylai esbonio sut y gallai gweithredoedd yn yr amgylchedd naturiol effeithio ar y sector twristiaeth. Roedd rhanddeiliaid yn galw ar i’r FfDC gydnabod pwysigrwydd seilwaith gwyrdd ar raddfa strategol gan wneud y cysylltiadau o’r lefel leol i’r genedlaethol. Codwyd themâu eraill hefyd – mynediad at yr amgylchedd naturiol/diogelu mawnogydd/plannu coed/cronfeydd dŵr/perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau’r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o’r polisi hwn yn nhablau B-38 a B-39, grŵp polisi 6.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i’r polisi hwn yn nhabl 3. Mae canlyniadau’r asesiad priodol i’r polisi yn nhabl 4.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf

## Polisïau 10-13 – Polisïau Ynni Adnewyddadwy

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Yn ôl y polisi cenedlaethol ar greu lleoedd cynaliadwy ym Mholisi Cynllunio Cymru (tudalen 20), dylai lle cynaliadwy gynhyrchu ei ynnu cynaliadwy ei hun, gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol a meddu ar dirweddau unigryw ac arbennig.

Mae adran 5.9 PCC yn disgrifio'n polisïau ar hyrwyddo ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dywed PCC y dylai awdurdodau cynllunio hwyluso datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob math. Wrth wneud, dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau y gwneir y gorau o botensial llawn ardal i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a bod targedau ynni adnewyddadwy'n cael eu taro.

Hefyd, dywed PCC y dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod polisïau cynllun datblygu gefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ym mhob rhan o Gymru, cyfeirio datblygiadau i'r lleoedd iawn a nodi'n glir y meini prawf lleol fydd yn sail ar gyfer cloriannu cynigion.

Mae paragraff 6.3.8 yn datgan mai'r un statws sydd i Barciau Cenedlaethol ac AHNE yn nhermau harddwch eu tirwedd a'u golygfeydd a rhaid diogelu'r ddau yn llwyr rhag datblygiadau anaddas.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)**

Cafodd TAN 8: Ynni Adnewyddadwy ei gyhoeddi yn 2005 ac mae'n darparu gwybodaeth dechnegol am wahanol fathau o dechnoleg ynni adnewyddadwy. Mae hefyd yn rhoi'r cefndir, y rhesymeg a chyd-destun y polisi ar gyfer yr Ardaloedd Chwilio Strategol (SSA) y mae PCC yn eu nodi fel rhai sy'n addas ar gyfer prosiectau ynni gwynt.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-8-ynni-adnewyddadwy

**Tystiolaeth Allweddol**

Targedau Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru (2017)

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu 3 tharged ynni adnewyddadwy.

The Welsh Government renewable energy targets are:

- bod Cymru'n cynhyrchu 70% o'r trydan y mae'n ei ddefnyddio, o ynni adnewyddadwy, erbyn 2030
- y capasiti i gynhyrchu un Gigawatt o drydan adnewyddadwy dan berchnogaeth leol erbyn 2030; a
- sicrhau bod gan brosiectau ynni adnewyddadwy newydd o leiaf elfen o berchnogaeth leol erbyn 2020.

Mae hyn ynghyd â datganiad Llywodraeth Cymru ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd, yn golygu ein bod wedi gorfod dwysáu'n hymdrechion gan ddefnyddio'r holl sbardunau sydd ar gael i ni i gynhyrchu mwy

o ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Mae'r FfDC yn cymryd camau proactif, a da hynny, i ddangos arweiniad yn y maes yn ogystal â rhoi'r cyd-destun i Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/targedau-ynni-adnewyddadwy-tystiolaeth.pdf

llyw.cymru/gweithdy-ar-dargedau-ynni-adnewyddadwy

llyw.cymru/cynhyrchu-ynni

### Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)

Yn nodi gweithredoedd Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datgarboneiddio.

Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn rhoi'r cefndir, y cyd-destun a'r dystiolaeth i Lywodraeth Cymru iddi allu cyflwyno amrywiaeth o fesurau i sicrhau bod Cymru'n datgarboneiddio yn ddigon cyflym i fodloni'n hymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r FfDC yn cael ei weld fel sbardun allweddol i'n helpu i gyrraedd ein targedau datgarboneiddio trwy system gynllunio Cymru.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf

### Asesiad o botensial ynni solar a gwynt ar y tir yng Nghymru (Astudiaeth Arup) (2019)

Defnyddiwyd yr adroddiad hwn ar y dystiolaeth dechnegol i nodi'r Ardaloedd Blaenoriaeth yn yr FfDC drafft.

Defnyddiwyd model mapio gan Arup oedd yn nodi'r ardaloedd yng Nghymru lle byddai'r cyfyngiadau lleiaf ar brosiectau ynni gwynt a solar mawr. Cafodd ei fireinio i ystyried yr effeithiau ar dirweddau'r Parciau Cenedlaethol ac AHNE a chyfyngiadau manwl eraill y bydd angen eu hastudio'n fanylach.

llyw.cymru/asesiad-o-botensial-ynni-solar-gwynt-ar-y-tir-yng-nghymru

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi hwn yn nhablau B-40 a B-41, grŵp polisi 7.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi hwn yn nhabl 3.

Mae Tabl 4 yn nodi canlyniadau priodol yr asesiadau o bolisïau 10, 11 ac 13. Mae Atodiad B yn nodi'r goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i bolisi 10 yn fanylach.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf

Atodiad B – Goblygiadau rhwydwaith Meysydd Blaenoriaeth Natura 2000 ar gyfer datblygu Ynni Solar a Gwynt ledled Cymru – Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/atodiad-b-adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd.pdf

## Polisïau 14 a 15 – Rhwydweithiau Gwresogi Ardal

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Dywed paragraff 5.4.18 y dylai awdurdodau cynllunio edrych yn ffafriol ar unrhyw gynigion i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel sydd wedi'u dylunio i wasanaethu clystyrau, fel systemau gwresogi ardal.

Mae adran 5.9 PCC yn disgrifio'n polisïau ar hyrwyddo ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dywed PCC y dylai awdurdodau cynllunio hwyluso datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob math. Wrth wneud, dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau y gwneir y gorau o botensial llawn ardal i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a bod targedau ynni adnewyddadwy'n cael eu taro.

Hefyd, dywed PCC y dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod polisïau cynllun datblygu gefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ym mhob rhan o Gymru, cyfeirio datblygiadau i'r lleoedd iawn a nodi'n glir y meini prawf lleol fydd yn sail ar gyfer cloriannu cynigion.

Dywed paragraff 5.9.6 a 5.9.7 y dylai awdurdodau cynllunio gynllunio'n adeiladol ar gyfer defnyddio trydan a gwres sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol. Dylent ddatblygu polisïau a chynigion sy'n hyrwyddo lleoli datblygiadau mawr yn yr un lle er mwyn gallu manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio gwres lleol. Dylai cynlluniau datblygu gefnogi cyfleoedd sydd wedi'u nodi ar gyfer gwresogi ardal, cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol a chyd-leoli cynigion a dyraniadau tir newydd â datblygiadau sy'n bod, cyflenwyr gwres a defnyddwyr gwres.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)**

Cafodd TAN 8: Ynni Adnewyddadwy ei gyhoeddi yn 2005 ac mae'n rhoi ychydig o gyngor ar rwydweithiau gwres ac yn hyrwyddo prosiectau gwresogi cymunedol sy'n defnyddio technolegau carbon isel y dylid eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu a chanllawiau cynllunio ategol.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-8-ynni-adnewyddadwy

**Tystiolaeth Allweddol**

The Future of Heating: Meeting the challenge (2013)

Datganiad Polisi Llywodraeth y DU ar Wresogi.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r her o geisio datgarboneiddio'r galw am wres yn y DU. Mae'n cydnabod y bydd rhwydweithiau gwresogi'n cyfrannu at leihau'r galw am systemau gwresogi sy'n defnyddio tanwydd ffosil.

Mae'n cydnabod bod cyfraniad awdurdodau lleol yn dyngedfennol at gynyddu'r defnydd o rwydweithiau gwresogi gan eu bod yn gallu creu amgylchedd cefnogol yn eu hardal a chefnogi neu noddi prosiectau penodol. Nhw sy'n gyfrifol am gynllunio, adfywio trefol a thai a nhw sy'n berchen ar yr heolydd y bydd yn rhaid gosod y rhwydweithiau hyn oddi tanynt. Nhw hefyd yw perchenogion y llwythi gwres mewn tai cymdeithasol ac adeiladau eraill y maen nhw'n eu rheoli neu'n eu meddiannu.

Mae'n cydnabod hefyd mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i baratoi'r uwchgynllun ynni mewn ardaloedd sy'n addas ar gyfer rhwydweithiau gwresogi ac i asesu ymarferoldeb prosiectau.

Tua 2% o'r galw am wres domestig, sector cyhoeddus a masnachol sy'n cael ei gyflenwi yn y DU trwy rwydweithiau gwresogi. Mae gan yr FfDC ran i'w chwarae i nodi'r ardaloedd lle gallai rhwydweithiau gwresogi fod yn ymarferol a gofyn am gynnal rhagor o waith i asesu eu potensial.

www.gov.uk/government/publications/the-future-of-heating-meeting-the-challenge (Saesneg yn unig)

### Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)

Yn nodi gweithredoedd Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datgarboneiddio.

Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn rhoi'r cefndir, y cyd-destun a'r dystiolaeth i Lywodraeth Cymru iddi allu cyflwyno amrywiaeth o fesurau i sicrhau bod Cymru'n datgarboneiddio yn ddigon cyflym i fodloni'n hymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Un polisi yn y Cynllun yw bod Llywodraeth Cymru'n parhau i roi cefnogaeth i nodi, datblygu a buddsoddi mewn systemau gwresogi ardal. Mae'r FfDC yn rhan o'r polisi adeiladol hwn o nodi ardaloedd posibl ar gyfer rhwydweithiau o'r fath.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf

### The national comprehensive assessment of the potential for combined heat and power and district heating and cooling in the UK (2016)

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r potensial ar gyfer systemau gwresogi ac oeri ardal effeithiol yn y DU, hyd at 2030.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r potensial ar gyfer systemau gwresogi ac oeri ardal effeithiol yn y DU, hyd at 2030.

Yn ôl yr asesiad yn yr adroddiad o'r potensial technegol, gallai brosiectau unigol ar lefel adeilad, fel pympiau gwres, gwres solar a boeleri biomas, fodloni hyd at 85% o'r galw am wres yn y DU. Ar wahân i hynny, gallai cymaint â 60% gael ei fodloni trwy systemau gwresogi ardal effeithiol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys mapiau gwresogi ac oeri o'r DU, sy'n dangos lleoliad systemau gwres a phŵer cyfun a systemau gwresogi ardal, a ffynonellau posibl gwres adferadwy. Gellid defnyddio data'r asesiad hwn i nodi'n union ble yng Nghymru y ceir digon o alw am wres i wneud rhwydweithiau gwresogi ardal yn ymarferol. Gellid cynnwys yr ardaloedd hyn yn yr FfDC i fod yn gatalydd ar gyfer rhagor o ymchwil a sylw gan awdurdodau cynllunio a datblygwyr.

www.gov.uk/government/publications/the-national-comprehensive-assessment-of-the-potential-for-combined-heat-and-power-and-district-heating-and-cooling-in-the-uk (Saesneg yn unig)

### Data Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal (2019)

Y data a ddefnyddir i nodi Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal.

Rydym wedi defnyddio data a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU a'r data yn y National Comprehensive Assessment of Heating and Cooling (gweler uchod) i nodi faint o wres sydd ei angen ar fwyafrif yr adeiladau yng Nghymru.

O wneud hynny, gan ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol, rydym wedi nodi ardaloedd bach eu harwynebedd lle mae galw mawr am ynni gwres. Mae'r holl ardaloedd hyn yn ardaloedd lle mae yna ddwysedd gwres (galw am wres) o fwy na 3 Megawatt y cilometr sgwâr. Rydym wedi crynhoi'r data i nodi'r trefi a dinasoedd yng Nghymru sydd â'r potensial mwyaf i gynnal rhwydweithiau gwresogi ardal.

Dangosir y lleoedd hynny yn yr FfDC fel Ardaloedd Blaenoriaeth Gwresogi Ardal.

lle.gov.wales/catalogue/item/NDFHeatDemandMap/?lang=cy

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi hwn yn nhablau B-40 a B-41, grŵp polisi 7.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi hwn yn nhabl 3.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf

# Adran 5 – Y Rhanbarthau

Mae adran 5 yn esbonio sut y mae'r FfDC yn ymdrin â chynllunio rhanbarthol. Mae'n cynnwys polisïau ar y tri rhanbarth – y Gogledd, y Canolbarth a'r De-orllewin a'r De-Ddwyrain.

Disgrifir y dystiolaeth fu'n sail i'r adran hon isod. Nodir hefyd y cysylltiadau â PCC.

Mae tair haen i'r system cynllunio datblygiad – cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r FfDC yn rhoi cyfeiriad ar gyfer cynlluniau rhanbarthol a lleol ond nid yw'n ymgymryd â rôl cynlluniau datblygu'r haenau is hyn. Mae'r polisïau rhanbarthol yn yr FfDC drafft wedi'u paratoi â hynny mewn cof. Os nad yw'r FfDC yn cyfeirio at bwnc, nid yw hynny'n golygu nad yw'r pwnc hwnnw'n un pwysig. Gall olygu bod haenau mwy priodol yn y system gynllunio i ymdrin ag e.

## Y rhanbarthau – Prif Dystiolaeth ac Arweiniad Trosfwaol

**Dynodi Ardaloedd Rhanbarthol ar gyfer yr FfDC (Awst 2017)**

Gwaith ymchwil a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru i nodi'r ardaloedd twf i gefnogi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer cynllunio.

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-rhanbarthau

**Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Rhagfyr 2017)**

Yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru am helpu'r economi i dyfu.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi

**Ystadegau Cryno ar gyfer Rhanbarthau Economaidd (2019)**

Mae'r adroddiad yn darparu ystadegau cryno ar bynciau allweddol ac ar gyfer tair rhanbarth yr FfDC.

llyw.cymru/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economaidd-2019

**Pobl, llefydd, dyfodol: diweddariad cynllun gofodol Cymru 2008**

Cynllun gofodol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio lleol a chymunedol.

llyw.cymru/pobl-llefydd-dyfodol-diweddariad-cynllun-gofodol-cymru-2008

**Cronfeydd Ewropeaidd Cymru: Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd**

Canllaw sy'n rhoi cyd-destun buddsoddi ar gyfer rhoi rhaglenni'r UE ar waith yng Nghymru.

llyw.cymru/cronfeydd-ewropeaidd-cymru-fframwaith-blaenoriaethau-economaidd

**Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol**

Canllawiau Newydd ar baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.

llyw.cymru/y-llawlyfr-ar-gynlluniau-datblygu-drafft-argraffiad-3

**Papurau Esboniadol – Y Rhanbarthau**

Cafodd y papur esboniadol ei baratoi i gynorthwyo darllenwyr yr FfDC drafft i ddeall y rhesymeg sydd wrth wraidd yr ôl troed rhanbarthol. Mae'n tynnu sylw at y dystiolaeth allweddol sydd wedi cyfarwyddo'r ôl troed rhanbarthol.

llyw.cymru/y-rhanbarthau-papur-esboniadol

## Polisi 16 – Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Mae Polisi 16 yn disgrifio'r materion polisi strategol y mae angen i gynllun rhanbarthol ddelio â nhw. Mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd ac yn sail iddo y mae'r sylw helaeth a roddir yn PPC i faterion cynllunio rhanbarthol:

Para: 1.4 Beth yw'r System Gynllunio?; 1.22 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; 1.24 Cynlluniau Datblygu Strategol; 3.49 Aneddiadau Newydd; 3.58 Seilwaith Ategol; 3.60 Lleiniau Glas a Lletemau Glas; 4.1.5 Strategaethau Trafnidiaeth a Chynllunio Integredig; 4.2.4 Gofyniad Tai; 4.2.16 Cyflenwi Tai; 5 Cydweithio (p74); 5.4 Datblygu Economaidd; 5.7.16 Targedau Ynni Adnewyddadwy; 5.9.3 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel; 5.13.12 Darparu Seilwaith Gwastraff Eang ac Amrywiol; 5.14.10, 5.14.14 Sicrhau Cyflenwad [Mwynau]; 5.14.21 Anghenion Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol ar gyfer Mwynau nad ydynt yn Cynhyrchu Ynni; 6 Cydweithio (p120); 6.3.3 Tirwedd; 6.4.4 Bioamrywiaeth a Rhwydweithiau Ecolegol; 6.5 Ardaloedd Arfordirol; 6.9.9 Dulliau Dadrisgio Integredig.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Tystiolaeth Allweddol**

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer dynodi ardaloedd cynllunio strategol, sefydlu paneli cynllunio strategol a pharatoi cynlluniau datblygu strategol (CDS). Mae'r FfDC yn cynnig helpu i ddarparu cynlluniau rhanbarthol a pharatoi CDSau.

www.legislation.gov.uk/anaw/2015/4/contents/enacted

Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol – Canllaw sy'n ymddangos ar baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol (Ymgynghoriad Mehefin i Awst 2019)

Canllaw ymarferol Llywodraeth Cymru ar baratoi cynlluniau datblygu i sicrhau bod y cynlluniau'n effeithiol ac ymarferol ac yn cyfrannu at greu lle fel y noda Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Mae adran 10 yr ymgynghoriad drafft yn ymdrin â pharatoi CDSau, gan ddylanwadu ar ofynion polisi 16.

llyw.cymru/y-llawlyfr-ar-gynlluniau-datblygu-drafft-argraffiad-3

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi hwn yn nhablau B-42 a B-43, grŵp polisi 8.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi hwn yn nhabl 3.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf



## Gogledd Cymru

### Polisi 17 – Wrecsam a Glannau Dyfrdwy

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

**Polisi Cynllunio Cymru**

3.37 Y Strategaeth Ofodol a'r Drefn Chwilio am Safleoedd

4.1.7 Symud o fewn a rhwng llefydd

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Tystiolaeth Allweddol**

Bargen Twf Gogledd Cymru – dogfen gais (2017)

Mae'r dogfennau hyn yn nodi blaenoriaethau ac amcanion twf yn y Gogledd a gefnogir gan y consortiwm o awdurdodau lleol a busnesau sy'n rhan o Fargen Twf y Gogledd. Mae'n enwi prosiectau posibl, enwau rhai lleoliadau allweddol ac yn nodi cysylltiadau rhanbarthol.

northwaleseab.co.uk/sites/nweab/files/documents/welsh_growth_plan_doc_v4_final.8.feb2018.cleaned.pdf

Symud Gogledd Cymru Ymlaen: Ein Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru (2017)

Mae'r ddogfen yn nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer Metro'r Gogledd, ac mae'n glir y dylai Wrecsam a Glannau Dyfrdwy gael eu datblygu'n lleoedd hygyrch a chysylltiedig, yn ganolog i weddill y Gogledd ac ardal gogledd-ddwyrain Lloegr.

llyw.cymru/metro-gogledd-ddwyrain-cymru-symud-gogledd-cymru-ymlaen

**Papur Esboniadol**

Y Strategaeth Ofodol

Mae'r papur esboniadol yn esbonio sut y cafodd strategaeth ofodol yr FfDC Drafft ei datblygu, a thynnir sylw at y modd mae'r polisïau'n ategu'r strategaeth.

llyw.cymru/y-strategaeth-ofodol-papur-esboniadol

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi yma yn nhablau B-45 a B-46, grŵp polisi 9.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi yma yn nhabl 3. Mae canlyniadau'r asesiad priodol i'r polisi yn nhabl 4.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynnwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf

## Polisi 18 – Aneddiadau Arfordirol yng Ngogledd Cymru

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

**Polisi Cynllunio Cymru**

3.37 Y Strategaeth Ofodol a'r Drefn Chwilio am Safleoedd

4.1.7 Symud o fewn a rhwng llefydd

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Tystiolaeth Allweddol**

Bargen Twf Gogledd Cymru – dogfen gais (2017)

Mae'r dogfennau hyn yn nodi blaenoriaethau ac amcanion twf yn y Gogledd a gefnogir gan y consortiwm o awdurdodau lleol a busnesau sy'n rhan o Fargen Twf y Gogledd. Mae'n enwi prosiectau posibl, enwau rhai lleoliadau allweddol ac yn nodi cysylltiadau rhanbarthol.

northwaleseab.co.uk/sites/nweab/files/documents/welsh_growth_plan_doc_v4_final.8.feb2018.cleaned.pdf

Symud Gogledd Cymru Ymlaen: Ein Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru: (2017)

Mae'r ddogfen yn nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer Metro'r Gogledd. Bydd ardaloedd ar hyd arfordir y Gogledd yn elwa arno gan wella'u cysylltiadau ag ardal drefol y gogledd-ddwyrain.

llyw.cymru/metro-gogledd-ddwyrain-cymru-symud-gogledd-cymru-ymlaen

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Dangosydd amddifaddedd cymharol yng Nghymru, gan ddangos y pocedi o amddifadded dwfn ei wreiddiau a geir mewn rhai trefi glan-môr yn y Gogledd.

statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/Archive/WIMD-2014

**Papur Esboniadol**

Y Strategaeth Ofodol

Mae'r papur esboniadol yn esbonio sut cafodd strategaeth ofodol yr FfDC Drafft ei datblygu, a thynnir sylw at y modd mae'r polisïau'n ategu'r strategaeth.

llyw.cymru/y-strategaeth-ofodol-papur-esboniadol

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi hwn yn nhablau B-45 a B-46, grŵp polisi 9.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi hwn yn nhabl 3. Mae canlyniadau'r asesiad priodol i'r polisi yn nhabl 4.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynwys atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf

## Polisi 19 – Lleiniau Glas yng Ngogledd Cymru

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

**Polisi Cynllunio Cymru**

3.60 Rheoli Ffurf Aneddiadau – Lleiniau Glas a Lletemau Glas

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Tystiolaeth Allweddol**

House of Commons Library: Green Belt (2019)

Papur trafod ar briodoleddau, manteision a gwendidau'r polisi lleiniau glas yn Lloegr.

researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN00934 (Saesneg yn unig)

Landscape Institute: Green Belt policy (2018)

Papur polisi gan yr Athrofa Tirweddau ar fanteision a gwerth posibl Lleiniau Gwyrdd sydd wedi'u saernïo'n dda a'u diffinio'n briodol.

landscapewpstorage01.blob.core.windows.net/www-landscapeinstitute-org/2018/04/li-green-belt-briefing-apr-2018.pdf (Saesneg yn unig)

Cheshire West and Chester Green Belt

Hyd a lled y llain werdd yn Swydd Gaer, sy'n ffinio â Chymru.

data.gov.uk/dataset/09c1fac5-9488-4cd1-9665-f3b84cab18f7/cwac-green-belt (Saesneg yn unig)

**Papur Esboniadol**

Y Strategaeth Ofodol

Mae'r papur esboniadol yn esbonio sut cafodd strategaeth ofodol yr FfDC Drafft ei datblygu, a thynnir sylw at y modd mae'r polisïau'n ategu'r strategaeth.

llyw.cymru/y-strategaeth-ofodol-papur-esboniadol

**Arfarniad Cynaliadwyedd integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi hwn yn nhablau B-45 a B-46, grŵp polisi 9.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi hwn yn nhabl 3.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynnwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf



## Polisi 20 – Porthladd Caergybi

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw…

2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod rôl porthladdoedd i wneud Cymru'n lle deniadol i fusnesau, ymwelwyr ac ar gyfer cludo nwyddau. Mae'n cydnabod y gall cefnogi a buddsoddi yn y cyfleusterau hyn wireddu potensial i roi hwb i'r economi, yn uniongyrchol trwy gynyddu'r defnydd o'r cyfleusterau, ac yn anuniongyrchol trwy'r cyfleoedd y gall seilwaith morgludiant ei gynnig i sectorau eraill.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)**

Mae TAN 18 yn ymhelaethu ar bolisïau trafnidiaeth PCC.

Dywed y dylai awdurdodau cynllunio ofalu i sicrhau nad yw datblygiadau a fwriedir ar gyfer adfywio porthladdoedd yn anghydnaws â gweithgarwch porthladdoedd gerllaw.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-18-trafnidiaeth

**Tystiolaeth Allweddol**

Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008

Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl sy'n rhoi'r fframwaith strategol ar gyfer holl weithgareddau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thrafnidiaeth hyd 2030.

Gan ymdrin â phob dull teithio, mae'r strategaeth yn disgrifio blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r canlyniadau y mae am eu gweld. Mae'n disgrifio awydd Llywodraeth Cymru i annog mwy o forgludiant byr trwy borthladdoedd Cymru.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-09/strategaeth-drafnidiaeth-cymru.pdf

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)

Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio'n moroedd mewn ffordd gynaliadwy dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae'r Cynllun Morol Cenedlaethol yn cynnig gweledigaeth i borthladdoedd ar gyfer cynllunio'u gweithgareddau heddiw ac yn y dyfodol, gan gynnwys opsiynau ar gyfer ehangu ac arallgyfeirio.

llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-dogfen

Port of Holyhead Expansion (2017)

Manylion y cynlluniau i ehangu Porthladd Caergybi.

Gwybodaeth am sgrinio a chwmpasu'r cynlluniau i ehangu Porthladd Caergybi ac asesiad o'u heffaith amgylcheddol.

www.gov.uk/government/publications/port-of-holyhead-expansion (Saesneg yn unig)

**Papur Esboniadol**

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Phorthladdoedd

Cafodd y papur esboniadol ei baratoi i gynorthwyo darllenwyr yr FfDC drafft i ddeall y berthynas rhwng yr FfDC Drafft a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r dull a roddir ar waith i ymdrin â pholisïau porthladdoedd. Mae'n tynnu sylw at feysydd polisi allweddol sy'n gorgyffwrdd o fewn y cynlluniau a'r dystiolaeth sydd wedi cyfarwyddo polisïau porthladdoedd o fewn y cynllun.

llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-phorthladdoedd-papur-esboniadol

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi hwn yn nhablau B-45 a B-46, grŵp polisi 9.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi hwn yn nhabl 3. Mae canlyniadau'r asesiad priodol i'r polisi yn nhabl 4.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynnwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf

## Polisi 21 – Cysylltiadau Trafnidiaeth â Gogledd-orllewin Lloegr

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Mae PCC am leihau'r angen i deithio a lleihau hyd teithiau a'i gwneud hi'n haws i bobl gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n datgan bod yn rhaid integreiddio cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)**

Mae TAN 18: Trafnidiaeth (2007) am weld integreiddio cynlluniau defnydd tir a datblygu seilwaith trafnidiaeth. Mae'n hyrwyddo ymdrechion i leihau'r angen i deithio a rhoi mwy o ddewis o ddulliau teithio heblaw'r car preifat. Mae'n hyrwyddo hygyrchedd cymharol yn hytrach na sicrhau bod pawb yn gallu teithio i bobman.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-18-trafnidiaeth

**Tystiolaeth Allweddol**

Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2008)

Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl sy'n rhoi'r fframwaith strategol ar gyfer holl weithgareddau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thrafnidiaeth hyd 2030.

Gan ymdrin â phob dull teithio, mae'r strategaeth yn disgrifio blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r canlyniadau y mae am eu gweld.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-09/strategaeth-drafnidiaeth-cymru.pdf

Symud Gogledd Cymru Ymlaen: Ein Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru (2017)

Polisi trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn y Gogledd.

Mae'r FfDC yn helpu i wireddu'r ymrwymiadau yn Symud Gogledd Cymru Ymlaen: Ein Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru.

llyw.cymru/metro-gogledd-ddwyrain-cymru-symud-gogledd-cymru-ymlaen

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) (yn cynwys Adroddiad Amgylcheddol) yn dangos yr asesiad o bolisïau'r FfDC drafft. Mae Atodiad B yr adroddiad yn dangos yr asesiad manwl o'r polisi hwn yn nhablau B-45 a B-46, grŵp polisi 9.

Mae adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos y canlyniadau sgrinio i'r polisi hwn yn nhabl 3. Mae canlyniadau'r asesiad priodol i'r polisi yn nhabl 4.

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) yn cynnwys Atodiad B:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd_1.pdf

## Polisi 22 – Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni

**Cefnogi cyflawni canlyniadau'r FfDC**

Cymru lle mae pobl yn byw...

2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Dywed adran 5.7 Polisi Cynllunio Cymru mai targedau Llywodraeth Cymru yw lleihau ein dibyniaeth ar ynni o danwyddau ffosil; a gweithio i newid i economi carbon isel yn unol â thargedau ac ymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Â paragraff 5.7.5 yn ei flaen i ddweud bod y blaenoriaethau hyn, er mwyn gwella ansawdd bywyd ein cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol, yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon, fel rhan o'n hymdrechion i ddatgarboneiddio a chyfoethogi yr un pryd lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl a chymunedau Cymru. Mae hyn yn golygu cymryd camau rhagofalus i rwystro Cymru rhag cael 'ei chlymu' i gloddio am ragor o danwydd ffosil a datblygiadau carbon uchel.

Dywed paragraff 5.7.7 y dylai'r system gynllunio sicrhau cymysgedd priodol o ynni fydd yn sicrhau'r manteision mwyaf i'n heconomi a'n cymunedau gan sicrhau'r effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol mwyaf posibl. Mae hyn yn rhan o nod Llywodraeth Cymru i sefydlu'r polisïau datblygu economaidd cadarnaf yn sail i dwf a llewyrch yng Nghymru, gan gydnabod pa mor bwysig yw datgarboneiddio a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel sbardun economaidd ac fel ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

**Tystiolaeth Allweddol**

Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)

Yn nodi gweithredoedd Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datgarboneiddio. Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn rhoi'r cefndir, y cyd-destun a'r dystiolaeth i Lywodraeth Cymru iddi allu cyflwyno amrywiaeth o fesurau i sicrhau bod Cymru'n datgarboneiddio yn ddigon cyflym i fodloni'n hymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r FfDC yn cael ei weld fel sbardun allweddol i'n helpu i gyrraedd ein targedau datgarboneiddio trwy system gynllunio Cymru.

Cydnabyddir y bydd gan niwclear rôl i gyflenwi rhan o'n cymysgedd ynni yn y dyfodol. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi treulio cryn amser a chyfle i sicrhau bod ein safleoedd niwclear yn darparu gwaith, hyfforddiant a gwaddol fawr o fanteision i Gymru.

Mae rhai'n credu mai Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig (AMR) yw dyfodol ynni carbon isel. Maen nhw'n ddatblygiadau llai a rhatach. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y potensial i Gymru ddod yn arweinydd byd yn y maes, gan ddatblygu sgiliau technegol a allai arwain at swyddi uchel eu gwerth yn ardal Trawsfynydd.

Mae gan yr FfDC ei rhan felly i ddefnyddio'r system gynllunio i hyrwyddo safleoedd yn y Gogledd-orllewin ar gyfer datblygiadau ynni newydd, i sicrhau y ceir y manteision economaidd mwyaf a bod unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd yn cael eu cydnabod a'u lliniaru.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf

### North West Nuclear Arc

Partneriaeth yw hon o asiantaethau a sefydliadau academaidd sy'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo potensial y Gogledd a Gogledd-orllewin Lloegr o safbwynt ymchwil a datblygu niwclear.

Labordy byw yw'r North West Nuclear Arc (NWNA) ar gyfer rhoi polisi niwclear blaengar ar waith ar lawr gwlad. Mae'n rhwydwaith sy'n ymestyn o Cumbria i Ogledd Cymru.

Mae bron hanner ymchwil a datblygu niwclear y DU yn digwydd yn y NWNA.

Mae prif bartneriaid NWNA wedi dod ynghyd mewn ffordd organig i greu cyd-weledigaeth fyw. Wedi'u huno gan ymdeimlad o le a chan awydd i sicrhau newid er lles ein cymunedau, ein nod yw cymryd camau cydgysylltiedig i feithrin ecosystem gryfach o arloesi a chefnogi'r sector niwclear i ddatblygu atebion rhatach a chyflymach i ddatrys y newid yn yr hinsawdd.



Mae gan yr FfDC ei rhan i ddefnyddio'r system gynllunio i hyrwyddo safleoedd yn y Gogledd-orllewin ar gyfer ymchwil a datblygu ynni newydd a sicrhau y ceir y manteision mwyaf.

nwnucleararc.co.uk/ (Saesneg yn unig)

### UK Industrial Strategy: Nuclear Sector Deal

Yn disgrifio Cynigion Polisi Llywodraeth y DU ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r sector niwclear.

Mae'r Fargen Sector hon yn datblygu'r bartneriaeth sydd eisoes yn bod rhwng Llywodraeth y DU a sector niwclear y DU.

Mae'n sicrhau bod sector niwclear y DU yn parhau'n gystadleuol o ran cost o'i chymharu â thechnolegau carbon isel eraill i gefnogi Strategaeth Twf Glân y DU a'r Her Fawr. Trwy ddefnyddio technegau adeiladu newydd a dulliau gweithgynhyrchu arloesol, bydd y fargen yn gostwng costau adeiladu adweithyddion newydd gan feithrin galluoedd a sgiliau'r gadwyn gyflenwi ddomestig.

Yn y fargen, mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y twf yn y diddordeb lleol a rhanbarthol mewn nifer o safleoedd fel Trawsfynydd, ar gyfer datblygu niwclear. Mewn egwyddor, mae'n nodi dadleuon datblygwyr y dylai pwerdai bach newydd (ail)ddefnyddio safleoedd trwyddedig sydd eisoes yn bod i fanteisio ar yr arian a fuddsoddwyd yn y gorffennol mewn seilwaith a chysylltiadau â'r grid, ac ar weithlu crefftus yr ardal. Mae Llywodraeth y DU wrthi'n ystyried y cwestiwn o ble i leoli SMRs.

Felly, mae gan yr FfDC ei ran i ddefnyddio'r system gynllunio i hyrwyddo safleoedd yn y Gogledd-orllewin ar gyfer ymchwil a datblygu newydd ym maes ynni ac i sicrhau manteision mor fawr â phosibl.

assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/720405/Final_Version_BEIS_Nuclear_SD.PDF (Saesneg yn unig)

### Ardal Fenter Eryri

Mae Bwrdd Ardal Fenter Eryri yn hyrwyddo **safle Trawsfynydd ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol**.

Mae safle Trawsfynydd yn cael ei hyrwyddo gan Ardal Fenter Eryri gan ei fod yn cynnig:

- lleoliad unigryw ar gyfer canolfan ddata, gydag ynni naturiol, ffynhonnell oeri naturiol a diogelwch naturiol
- y potensial i ddatblygu Adweithydd Modiwlaidd Bach (SMR), y cyntaf o'i fath
- ei seilwaith grid ynni ei hun, o bwys cenedlaethol.

Felly, mae gan yr FfDC ei ran i ddefnyddio'r system gynllunio i hyrwyddo safleoedd yn y Gogledd-orllewin ar gyfer ymchwil a datblygu newydd ym maes ynni ac i sicrhau manteision mor fawr â phosibl.

businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy/ardaloedd-menter-yng-nghymru/eryri

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

